YSGOL GYNRADD GYMRAEG BRYN -Y- MÔR
*Pennaeth/ Headteacher: Mrs Elin Wakeham*
Mewn undod mae nerth /Stronger together

Annwyl Riant/Gofalwyr

**Dychwelyd i'r ysgol**

Wrth i ni baratoi i ddychwelyd disgyblion y Cyfnod Sylfaen (M, D, 1 a 2) i'r ysgol mae yna ychydig o bethau y dylem eu hystyried. Cafwyd neges glir iawn gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Abertawe yn dweud, er bod rhai grwpiau blwyddyn yn dychwelyd i'r ysgol, nid yw'n golygu nad oes **unrhyw berygl** i gymuned yr ysgol o ran Covid 19. Mae Cymru gyfan yn dal i fod mewn cyfnod glo a rhaid i chi gadw at y cyngor a'r canllawiau a roddir. Rydym yn dal i fod yn nghyfnod clo lefel 4 ar hyn o bryd ac mae'n dal i fod yn sefyllfa ddifrifol.

Gofynnwn i rieni a gofalwyr cofio am eu cyfrifoldebau tuag at ei gilydd, y staff a'r disgyblion. Dim ond 1 canlyniad prawf positif Covid fydd angen i gau swigen dosbarth. Bydd hyn yn cael effaith sylweddol ar addysg a lles disgyblion.

Gofynwn i rieni:

- Peidiwch â threfnu cyfarfodydd â phlant ac oedolion eraill yn y tŷ nac mewn mannau awyr agored.
- Peidiwch â threfnu partïon pen-blwydd a chysgu drosodd.
- Gwiriwch y cyngor a roddir am swigod cymorth ar wefan y Llywodraeth. https://gov.wales/alert-level-4-frequently-asked-questions

- Pan yn casglu'ch plentyn o'r ysgol gwnewch ar eich pen eich hun os yn bosib.
- **Symudwch i ffwrdd o'r buarth a giât yr ysgol cyn gynted â phosibl.**
- Gwisgwch fwgwd ar fuarth yr ysgol a'r tu allan wrth gyrraedd yr ysgol (oni bai eich bod wedi'i eithrio)
- **Peidiwch ag** anfon eich plentyn i'r ysgol os oes gan eich plentyn neu unrhyw un ar yr aelwyd unrhyw un o'r symptomau canlynol:
    - Peswch newydd neu barhaus
    - Tymheredd uchel
    - Colli blas neu arogl
- Rhowch wybod **i'r ysgol ar unwaith** os bydd unrhyw un yn y cartref yn profi'n bositif am Covid 19.

**Wythnos yn dechrau Chwefror 22ain**
O'r wythnos sy'n dechrau Chwefror 22ain bydd disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn yr ysgol, bydd staff a disgyblion CA2 (Bl 3 – 6) yn parhau gyda dysgu cyfunol (dysgu yn y cartref) ond disgwylir hefyd y bydd yr ysgol yn cadw'r Ddarpariaeth Gofal Plant Brys ar agor.

Fel y gallwch ddychmygu, bydd hyn yn herio staff yr ysgol yn yr hyn byddent yn gallu cynnig /ei ddarparu. Y ffocws a roddir gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Abertawe ar hyn o bryd yw bod yr ysgol yn cefnogi

**Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, St Albans Road, Brynmill, Swansea, SA2 0BP**
**E-bost/ E-mail: ygg.brynymor@swansea-edunet.gov.uk**
**Gwefan/ Website: www.yggbrynymor.co.uk**
**Trydar/Twitter: @YGGBrynymor1**
**Ffôn/ Tel: 01792 466354**

dychwelyd disgyblion y Cyfnod Sylfaen fel blaenoriaeth. Felly, efallai y bydd peth newid mewn amserlenni dysgu cyfunol ar gyfer CA2 ac yn y ddarpariaeth Gofal Plant Brys.

**Gofal Plant Brys**

O Chwefror yr 23ain, bydd yr GPB ar gael i ddisgyblion **CA2 yn unig**. Bydd nifer gyfyngedig o leoedd ar gael. Bydd yr GPB yn rhedeg ar oriau ysgol arferol **8.40 i 3.20**. Mae gennym nifer gyfyngedig iawn o staff ar gael i gefnogi'r GPB. Os bydd aelod o staff yn mynd yn sâl neu angen hunan-ynysu, efallai byddai angen i ni gau'r GPB ar fyr rybudd. Bydd angen i ddisgyblion sy'n mynychu'r GPB parhau i ddod â'u cinio eu hunain. Bydd y plant GPB yn aros yn eu swigen eu hunain bob amser. Darpariaeth frys yw hon a dim ond pan **nad oes opsiynau gofal plant eraill ar gael y dylid ei defnyddio.**

**Clwb Brecwast / Clwb Gofal**

Am yr wythnos gyntaf yn ôl – (22- 26/02/2021), ni fydd clwb brecwast nac ar ôl-ysgol. Mae hyn yn cael ei adolygu'n gyson a byddwn yn rhoi gwybod i chi cyn gynted ag y bydd modd ailddechrau'r opsiynau hyn.

**Trefniadau ar gyfer yr wythnos sy'n dechrau 22/02/2021**

| Diwrnod | Trefniadau: |
|---|---|
| Dydd Llun 22/2/2021 | Diwrnod cynllunio i staff ymgyfarwyddo â chynllun gweithredu ac asesiadau risg newydd. DIM DISGYBLION YN YR YSGOL A DIM DYSGU CYFUNOL. |
| Dydd Mawrth 23/2/2021 | **Y Cyfnod Sylfaen – DIM DISGYBLION – Diwrnod Cynllunio i'r staff – dim dysgu cyfunol** |
| | **CA2 – Ailddechrau** dysgu cyfunol |
| Dydd Mercher 24/2/2021 | **Y Cyfnod Sylfaen** – Dychwelwyd 50% – Grŵp A (gwybodaeth i ddilyn ar ba grŵp y mae eich plentyn ynddo). |
| | **CA2 – Dysgu** cyfunol |
| Dydd Iau 25/2/2021 | **Y Cyfnod Sylfaen** – Dychwelyd 50% – Grŵp B (gwybodaeth i ddilyn ar ba grŵp y mae eich plentyn ynddo). |
| | **CA2 – Dysgu** cyfunol |
| Dydd Gwener 26/2/2021 | **Cyfnod Sylfaen** – Dychwelyd llawn – pawb mewn<br>**CA2 – Dysgu** cyfunol |

**Amseroedd Casglu/Gollwng**

Yn y bore bydd y giât yn agor fel arfer am 8.35am ac yn cau am 8.50am. Bydd disgyblion yn mynd yn syth i'w hystafelloedd dosbarth, gan ddilyn system un ffordd yr ysgol a bydd disgwyl iddynt olchi eu dwylo.

YSGOL GYNRADD GYMRAEG BRYN -Y- MÔR
*Pennaeth/ Headteacher: Mrs Elin Wakeham*
Mewn undod mae nerth /Stronger together

Byddwn yn parhau â'r amseroedd hwnt cychwyn er diogelwch pawb.

Disgyblion meithrin: 2.45pm
Disgyblion derbyn: 2.50pm
Blynyddoedd 1 a 2: 3.00pm

**Gwisgwch fygydau.**

**Cinio Ysgol**
Am yr wythnos gyntaf bydd angen i'ch plentyn ddod â phecyn cinio, byrbryd boreol (ffrwyth) a diod i mewn gan na fydd arlwyo yn ystod yr wythnos hon. O Fawrth 1af, bydd yr adran arlwyo'n ailddechrau a bydd opsiynau bwyd poeth ar gael.

**Cludiant**
Bydd cludiant i ddisgyblion yn ôl yr arfer.  Rhowch wybod ir ysgol os NAD ydych am i'ch plentyn ddod i'r ysgol ar y bws (os ydynt yn ei ddefnyddio fel arfer).

Edrychwn ymlaen at groesawu disgyblion y cyfnod sylfaen yn ôl i'r ysgol. Rwy'n siŵr bod athrawon a disgyblion yn edrych ymlaen yn fawr at weld ei gilydd eto! Yr wyf hefyd yn siŵr, drwy ein hymdrech ofalus ar y cyd, fel staff a rhieni/gofalwyr, y byddwn yn dychwelyd i'r ysgol mewn modd diogel a hwylus.

Fel arfer, os oes gennych unrhyw bryderon neu os oes angen i chi eu cefnogi, cysylltwch â'r swyddfa neu e-bostiwch eich athro.

Diolch am eich amynedd a'ch cydweithrediad

Yr Gywir




Elin Wakeham
Pennaeth

**Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, St Albans Road, Brynmill, Swansea, SA2 0BP**
**E-bost/ E-mail: ygg.brynymor@swansea-edunet.gov.uk**
**Gwefan/ Website: www.yggbrynymor.co.uk**
**Trydar/Twitter: @YGGBrynymor1**
**Ffôn/ Tel: 01792 466354**